Rhifyn 5, Medi 09 Pris: £1

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

Blwyddyn ysgol newydd

Croeso i'r rhifyn gyntaf o Yr Athro ar gyfer y flwyddyn ysgol 2009-2010. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth a chyngor a gobeithiwn y bydd y deunydd o fudd i chi.

Cofiwch fod Swyddogion UCAC ar gael trwy gydol y flwyddyn i ateb eich cwestiynau, i rannu gwybodaeth ac i gynghori a chefnogi ar faterion yn ymwneud â byd addysg a'ch cyflogaeth, felly beth bynnag sy'n eich pryderu, bach neu fawr - cysylltwch!

Gall Swyddogion UCAC, hefyd, godi llais i fynegi eich pryderon am ddatblygiadau ym myd addysg gan ein bod yn mynychu cyfarfodydd cyson gyda Jane Hutt a John Griffiths, Gweinidogion Addysg Llywodraeth y Cynulliad, a'u Swyddogion.

Os hoffech dderbyn cyngor, cefnogaeth neu wybodaeth neu os hoffech ddwyn mater i'n sylw, codwch y ffôn neu ewch i wefan UCAC www.athrawon.com.

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol

Adran Addysg UCAC – chwilio am aelod newydd!

Mae lle yn wag ar Adran Addysg UCAC – a hoffech chi fod yn aelod?

Chwe athro neu ddarlithydd (cynradd/uwchradd/addysg bellach) sy'n aelodau o'r Adran, a materion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu sy'n cael y sylw pennaf, gan gynnwys materion cyfrwng Cymraeg, anghenion arbennig ac ati.

Mae'n gyfle i aelodau godi materion o bryder y gall swyddogion yr undeb eu codi mewn cyfarfodydd gydag APADGOS/Llywodraeth y Cynulliad, AALlau, CBAC, Ofqual ac eraill. Mae'n gyfle hefyd i swyddogion yr undeb holi am y sefyllfa yn yr ysgolion/colegau mewn meysydd penodol, a chael mewnbwn ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau, dogfennau polisi ac ati.

Mae'r Adran yn cwrdd unwaith y tymor ym mhrif swyddfa UCAC yn Aberystwyth. Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar hyn o bryd i gynnal ambell i gyfarfod drwy fideo-gynadledda i leihau ar y teithio. Mae UCAC yn talu costau teithio'r aelodau, a dylai bod modd i ysgol hawlio'r costau cyflenwi gan yr AALl.

Os oes diddordeb, rhowch wybod cyn gynted â phosib i Ysgrifennydd yr Adran Addysg - rebecca@athrawon.com

Cyrsiau UCAC i Athrawon Newydd

Bydd UCAC yn cynnal dau gwrs ar gyfer athrawon sydd wedi cymhwyso yn ystod y tair blynedd diwethaf – y naill yn Llanrwst ar 16eg Tachwedd, a'r llall yng Ngorseinon ar 23ain Tachwedd.

Bwriad y cyrsiau fydd rhoi gwybod i athrawon am eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, ac i gynnig gwybodaeth a chyngor ar bynciau amrywiol megis e-ddiogelwch a sut i ymdopi â sefyllfaoedd anodd yn y gweithle.

Bydd digonedd o gyfle i drafod, i godi materion o bryder, ac wrth gwrs i gwrdd ag athrawon newydd o amryw o ysgolion eraill.

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly rhowch wybod cyn gynted â phosib os oes diddordeb gennych – ucac@athrawon.com. Athrawon newydd, neu yn ystod eu tair blynedd gyntaf o addysgu bydd yn cael blaenoriaeth.

t2 UCAC ar Waith t3 Gwybodaeth a Chyngor t4 Adnoddau

Technoleg Newydd mewn Ysgolion

O ganlyniad i ddatblygiadau'r blynyddoedd diwethaf, roedd yn briodol mai'r 'Defnydd o Dechnoleg Newydd mewn Ysgolion' oedd testun trafod Cyfarfod Cyhoeddus UCAC yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala.

Agorodd Dafydd Williams, Cyfarwyddwr y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (GCaD), y drafodaeth drwy ddangos posibiliadau cadarnhaol y dechnoleg newydd. Amlinellodd gyfraniad y Grid yn hyrwyddo arferion addysgu da, a thynnodd sylw at yr holl adnoddau sydd i'w cael yn rhad ac am ddim ar eu gwefan.

Yr ail siaradwraig oedd Karen Roberts, Cydlynydd Cyfryngau Newydd, Ofcom. Mae ymchwil wedi cadarnhau pa mor eang yw'r defnydd o'r dechnoleg newydd ymhlith pobl ifanc, gyda phlant yn aml yn fwy hyddysg a chyfforddus yn y maes na rhieni neu athrawon. Mae Ofcom yn cynnig arweiniad ar sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd mewn awyrgylch diogel.

Cyflwynodd Sue Davies a Brian Jones, dau o Swyddogion Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru, amlinelliad o'r problemau y maent hwy yn ymwybodol ohonynt. Un pwyslais ganddynt yw bod gwahardd llwyr yn wrthgynhyrchiol ac felly bod angen addysgu ac arweiniad ar bobl ifanc i'w galluogi i wneud defnydd cyfrifol o bethau fel gwefannau cymdeithasol.

Cafwyd cyfraniadau o'r llawr a byddai pawb yn cytuno â sylwadau Emrys Wynne, Llywydd UCAC, wrth iddo gloi bod hwn wedi bod yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon ac eraill.

* * *

Mae adran gyfan ar wefan GCaD Cymru sy'n rhoi sylw i faterion e-ddiogelwch; gellir cael mynediad ato wrth sgrolio i lawr ar y dudalen flaen: www.gcad-cymru.org.uk

---

Dirprwyaeth o UCAC yn ymweld ag Estyn

Ar 9 Gorffennaf, aeth dirprwyaeth o UCAC i ymweld â Bill Maxwell, Prif Arolygwr Estyn, Meilyr Rowlands (Arolygydd Rheoli) ac Ann Keane (Pennaeth Cyfarwyddiaeth). Yn ogystal â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Swyddog Polisi a'r Llywydd Cenedlaethol, roedd pedwar o aelodau UCAC sy'n athrawon neu'n arweinwyr ysgol profiadol, wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r drafodaeth. Mae UCAC yn ddiolchgar i Huw Foster Evans (Ysgol Morgan Llwyd), Dilwyn Ellis Hughes (Ysgol Uwchradd Glan y Môr), Garem Jackson (Ysgol Gynradd Cwm-y-glo) a Rolant Wynne (Ysgol Gynradd Dolbadarn) am eu paratoadau a'u cyfraniadau gwerthfawr.

Codwyd nifer o faterion, gan gynnwys: hunan arfarnu; materion cyfrwng Cymraeg (e.e. dehongliad Estyn o gyfrwng Cymraeg/dwyieithrwydd, timau ac adroddiadau drafft cyfrwng Cymraeg); dehongliad o '*well-being*' (a therm Cymraeg addas amdano); hyfforddi ar lefel ysgolion ar gyfer staff sydd o dan arolygaeth/sy'n dymuno bod yn Arolygwyr; cysylltiad rhwng arolygon ysgol ac arolygiadau ardal.

Roedd yna barodrwydd i wrando ac i ystyried sylwadau UCAC, ac efallai mai un o'r prif bwyntiau o wybodaeth ddaeth allan o'r cyfarfod yw y bydd Estyn yn troi cefn ar adrodd ar 'ddwyieithrwydd' ysgol (sy'n medru bod yn gamarweiniol), ac yn adrodd ar 'gyrhaeddiad yn y Gymraeg'.

Byddwn yn trefnu cyfarfod arall yn ystod 2009-2010, felly cysylltwch ag UCAC i fynegi barn neu os hoffech fynychu'r cyfarfod.

UCAC yn cyfarfod gyda Jane Hutt

Ar 2 Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod rhwng pedwar o Swyddogion UCAC, y Gweinidog Plant Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau. Trafodwyd nifer o faterion pwysig iawn yn ystod y cyfarfod gan gynnwys:

- gweithredu'r Cytundeb Llwyth Gwaith a Phrin Gyflenwi (*rarely cover*) yn arbennig, gan gynnwys oblygiadau ariannol
- datblygiadau ar gyfer disgyblion 14-19 oed oherwydd y Mesur Dysgu a Sgiliau, gan gynnwys materion ariannu a diogelu addysg cyfrwng Cymraeg
- yr agenda Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant, gan fynegi pryder am faterion ariannu, dilyniant ieithyddol a'r angen i ddiogelu statws ieithyddol ysgolion cyfrwng Cymraeg ar adeg o drawsnewid, diogelu chweched dosbarth ysgolion, a diffyg tryloywder y broses hyd yn hyn
- materion amrywiol am Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, yn enwedig y lleihad mewn dewis o ran lleoliad, ynghyd â phrinder cyrsiau a chyfleoedd mewn meysydd penodol
- Cymraeg fel Ail Iaith, a'r angen i wrando ar athrawon a'u barn hwy am y problemau, y llwyddiannau a'r ffordd ymlaen

Roedd yn gyfarfod buddiol iawn, a chafodd Elaine Edwards (Ysgrifennydd Cyffredinol), Eryl Owain (Swyddog Maes y Gogledd), Rebecca Williams (Swyddog Polisi) ac Emrys Wynne (Llywydd Cenedlaethol), gyfle i rannu gwybodaeth, i drafod safbwynt UCAC ac i rannu pryderon aelodau.

Yn ystod y pythefnos cynt, roedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Swyddog Polisi hefyd wedi cyfarfod gyda Nerys Evans AC, Llefarydd Plaid Cymru ar Addysg, a Jenny Randerson AC, Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar Addysg i drafod y materion hyn.

Dyma gyfres o gyfarfodydd gwerthfawr i geisio dylanwadu ar yr agenda addysg. Bydd UCAC yn cyfarfod gyda gwleidyddion eto yn nhymor yr Hydref, felly cysylltwch â ni i drafod materion o bryder. Byddem yn arbennig o ddiolchgar am sylwadau am ariannu addysg.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwynn Griffith
Is-Lywydd: Linden Evans
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro*: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, Ffacs: 01970 626765, rebecca@athrawon.com, www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Rheolau Cyflenwi Newydd – ‘Prin Gyflenwi’ *(Rarely Cover)*

Yn ystod y flwyddyn ysgol 2009-2010, bydd ysgolion yn wynebu’r her ariannol o weithredu gofynion y rheol Prin Gyflenwi (*Rarely Cover*). Mae’r gofynion newydd yn golygu na fydd modd defnyddio athro yn yr ysgol i gyflenwi ar gyfer unrhyw ddigwyddiad roedd modd ei ragweld. Mae’r rheol yn statudol, ac eleni bydd ysgolion yn wynebu’r posibilrwydd o dderbyn Rhybudd Cydymffurfiaeth (*Compliance Order*), os na fydd yr ysgol wedi cydymffurfio â gofynion y *School Teachers’ Pay and Conditions Document* ar faterion megis Prin Gyflenwi.

Mi welwch isod grynodeb o’r rheolau cyflenwi newydd; am fanylion llawnach, gweler taflen wybodaeth newydd UCAC – ar gael o wefan UCAC neu drwy gysylltu â’r swyddfa. www.athrawon.com/Main/Default.aspx?PageID=286&lang=A

Gweithredu Prin Gyflenwi

Yn gyffredinol

- Ni ddylid defnyddio athro yn yr ysgol ar gyfer unrhyw waith cyflenwi os oedd modd rhagweld yr absenoldeb
- Nid yw’n gyfreithiol i ddefnyddio athro i gyflenwi yn ystod ei gyfnod Cynllunio, Paratoi ac Asesu
- Mae rhannu dosbarth rhwng dosbarthiadau athrawon eraill yn cyfrif fel gwaith cyflenwi
- Nid oes cyfyngiad ar oriau cyflenwi athrawon sydd wedi’u cyflogi (yn bennaf neu’n gyfan gwbl) i bwrpas cyflenwi

Cyflenwi mewn achos o salwch / absenoldeb annisgwyl

- Ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb annisgwyl, dylai’r ysgol ystyried pob cam posibl a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes angen i athro yn yr ysgol gyflenwi
- Os nad yw’n bosibl trefnu cyflenwi ar gyfer y wers / gwersi cyntaf, dylai fod yn bosib gwneud trefniadau ar gyfer gweddill gwersi’r diwrnod
- O’r ail ddiwrnod o absenoldeb ymlaen, ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi
- Dylid trefnu athrawon cyflenwi addas ar gyfer absenoldeb tymor canolig a hir dymor

Absenoldebau hir dymor eraill

- Dylid trefnu athrawon cyflenwi addas, ymlaen llaw, ar gyfer absenoldebau hir dymor megis mamolaeth, secondiad

Absenoldebau sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw

- Mewn achos digwyddiad sydd wedi’i drefnu ymlaen llaw ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi



Manteision i athrawon

Dyma nodyn i atgoffa aelodau am fanteision a allai fod ar gael iddynt yn sgil eu cyflog athro.

Os ydy’ch cyflogwr yn cynnig cynllun o’r fath, dylech fod wedi derbyn gwybodaeth berthnasol am y cyfle i aberthu rhan o’ch cyflog gros (*salary sacrifice*) er mwyn cael tâl mewn nwyddau/cynnyrch (*in kind*), a hynny heb i chi dalu treth incwm ar y rhan honno o’r cyflog.

Ar gyfer athrawon mae tri chynllun posib ar gael, sef:

- **Talebau gofal plant neu gynllun budd-dal gofal plant arall:** mae’r rhain yn hyblyg - ceir eu defnyddio ar gyfer clwb gwyliau, clwb ar ôl ysgol, gwarchodwyr plant, ac ar gyfer plant hyd at 16 mlwydd oed; mae mamau a thadau’n gymwys i ymuno â’r cynllun aberthu cyflog
- **Beic neu gyfarpar diogelwch wrth feicio**
- **Cynllun ffôn symudol**

Os oes gennych ddiddordeb pellach, holwch eich Awdurdod Addysg Lleol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hapus â’r telerau ariannol cyn gwneud penderfyniad.

Newid i oedran isaf rhyddhau pensiwn

Dyma ragrybudd y bydd yr oedran isaf y gellir rhyddhau pensiwn yn codi o 50 i 55 mlwydd oed yn Ebrill 2010. Golyga hyn na fydd yn bosib i athrawon 50 - 55 mlwydd oed sy’n wynebu diswyddiad gael ymddeol yn gynnar. Dydi’r newid ddim yn effeithio ar ymddeoliad ar sail tor-iechyd.

Rheoli ac Osgoi Poen Cefn yn y Gwaith

Poen cefn yw un o brif achosion absenoldeb o'r gwaith yn y DU. Mae gyrru car, bod ar eich traed drwy'r dydd, eistedd yn llonydd wrth gyfrifiadur, eistedd yn swp o flaen y teledu, i gyd yn cynyddu'r perygl o boen cefn. Hefyd mae gwaith llafur trwm, symudiadau ailadroddus, codi eitem wrth droi'ch cefn, ac eistedd neu sefyll mewn ystum lletchwith am gyfnodau hir yn gallu arwain at boen cefn. Fodd bynnag, mae llawer o bethau y gellir eu gwneud i leihau'r risg o ddioddef poen cefn.

Thema Wythnos Ymwybyddiaeth Poen Cefn eleni yw rheoli ac osgoi poen cefn yn y gwaith. Rhaid i'ch cyflogwr gyflawni rhai gofynion craidd i ddiogelu'ch iechyd a'ch diogelwch, ond fel rhywun sy'n gyflogedig mae gennych chi gyfrifoldeb hefyd. Mae ein cyrff yn fwy cymwys i symud yn hytrach na threulio cyfnodau hir o amser yn yr un lle. Felly mae'n bwysig eich bod yn symud bob 20 munud o leiaf, ac yn fwy aml na hynny os ydych yn eistedd wrth ddesg neu orsaf waith. Os ydych chi'n gweithio wrth ddesg neu orsaf waith mae'n bwysig eich bod yn dewis cadair swyddfa dda ac yn addasu'ch gorsaf waith i weddu i'ch anghenion chi.

I gael gwybodaeth ar drefnu digwyddiad yn Wythnos Ymwybyddiaeth Poen Cefn 10-16 Hydref 2009, neu am wybodaeth bellach ynghylch rheoli ac osgoi poen cefn yn y gwaith cysylltwch â BackCare ar 020 8977 5474 neu ewch i www.backcare.org.uk

Antur Byd-eang – teithiwch y byd gyda Cymorth Cristnogol!

Adnodd newydd am ddim gan Cymorth Cristnogol yw 'Antur Byd-eang,' ar gyfer bwrdd gwyn rhyngweithiol mewn ysgolion cynradd. Mae'n codi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang a gwaith Cymorth Cristnogol ac i'w weld ar: www.christianaid.org.uk/learn/globalexplorers

Mae deunydd defnyddiol yma i athrawon AG, sy'n astudio gwaith mudiadau ffydd a materion yn ymwneud â chyfiawnder a stiwardiaeth. Gall disgyblion droelli'r glôb i weld ble mae Cymorth Cristnogol yn gweithio a darganfod ffeithiau diddorol am y gwledydd hyn. Ceir astudiaethau achos manwl o 7 gwlad sy'n caniatáu i ddisgyblion weld pam a sut mae Cymorth Cristnogol yn gweithio yn y ffordd y mae. Mae yna fideo am waith Cymorth Cristnogol, ynghyd â deunydd clywedol, taflenni gwaith, cynlluniau gwersi (AG, Daearyddiaeth ac ABCh/ADCDF), lluniau a chwis. Mae'n adnodd hyblyg gan ei fod yn bosib i'r athro lawr-lwytho lluniau a deunydd o'r wefan. Anogir y disgyblion i gwestiynu, trafod ac asesu a myfyrio ar faterion byd-eang a datblygiad cynaliadwy. Y themâu sy'n cael eu trafod yw:

- dŵr
- newid hinsawdd
- cymharu bywydau
- dinasyddiaeth weithgar
- argyfyngau
- bywyd iach
- gwaith elusen Gristnogol
- cyfoeth a thlodi

Mae'r adnodd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Eirian Samuel esamuel@cymorth-cristnogol.org

Stonewall Cymru yn lansio adroddiad ar fwlio homoffobaidd

Yn ddiweddar lansiodd Stonewall Cymru *Yr Adroddiad Ysgol*, sef ymchwil blaengar ar fwlio homoffobaidd mewn ysgolion. Yr adroddiad yw'r arolwg mwyaf erioed o bobl ifanc hoyw i'w gynnal ym Mhrydain, ac mae'n cyflwyno darlun ysgytwol o'r raddfa o fwlio homoffobaidd gan ddisgyblion a staff ysgol.

Mae'r canlynol ymysg y canfyddiadau allweddol:

- Mae 65% o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD) wedi dioddef bwlio homoffobaidd
- O'r rhain, mae 92% (143,000) wedi dioddef bwlio homoffobaidd ar lafar, 41% (64,000) wedi dioddef bwlio corfforol a 17% (26,000) wedi derbyn bygythiadau i'w bywydau
- Mae 97% o ddisgyblion LHD yn clywed ymadroddion sarhaus megis 'dyke' a 'queer' yn yr ysgol
- Nid yw 50% o athrawon yn gweithredu pan maent yn clywed iaith homoffobaidd
- Dywed 30% o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol bod oedolion - athrawon neu staff cynorthwyol - yn gyfrifol am ddigwyddiadau homoffobaidd yn eu hysgolion
- Mae llai na chwarter yr ysgolion wedi dweud wrth ddisgyblion bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol

Meddai'r Gweinidog Addysg, Jane Hutt, "Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru...wedi ymrwymo at weithio gyda Stonewall Cymru er mwyn datblygu canllawiau ar daclo bwlio homoffobaidd mewn ysgolion."

Meddai Rhian Keyse, Swyddog Addysg ac Ieuenctid Stonewall Cymru, "Bydd yr adroddiad ysgytwol hwn yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru, a dylai ddeffro pawb sy'n gweithio ym myd addysg. Mae bwlio homoffobaidd yn parhau i fod yn un o'r mathau prin o fwlio sy'n cael ei oddef mewn gormod o ysgolion."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Keyse, Swyddog Addysg ac Ieuenctid Stonewall Cymru ar 02920 237744 neu rhian.keyse@stonewallcymru.org.uk